# Cynllun Gweithredu Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022

2022 School Sport Survey Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

**Enw'r ysgol:** ________ **Dyddiad:** ________

Cadwch lygad am ganlyniadau cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn ystod hydref 2022:
[www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey](www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey)

| Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon | Canfyddiadau cadarnhaol yr arolwg? | Pam wnaeth eich ysgol berfformio'n dda yma? | Sut ydych chi am adeiladu ar hyn? |
|---|---|---|---|
| **Cenedl Egnïol**<br>Pa mor aml a ble mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon? | | | |
| **Pawb**<br>Pwy sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn eich ysgol, a pha ddemograffeg sy'n wirioneddol cymryd rhan mewn chwaraeon? | | | |
| **Am Oes**<br>Sut mae'r cyfranogiad yn amrywio yn ôl oedran, a faint mae'r plant yn gwerthfawrogi ymarfer corff a chwaraeon? | | | |
| **Mwynhau**<br>Pa brofiadau cadarnhaol gafodd y plant yn eich ysgol? | | | |

GWELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON

sportwales chwaraeoncymru

# Cynllun Gweithredu Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022

2022 School Sport Survey Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

| | Meysydd i'w Gwella | Ar hyn o bryd | Targed | Beth arall y mae angen i ni ei wybod? | Cynlluniau gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cenedl Egnïol**<br>Ble oedd y cyfranogiad yn is? | | | | | |
| **Pawb**<br>Pa ddemograffeg oedd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn chwaraeon? | | | | | |
| **Am Oes**<br>Beth yw anghenion a gofynion eich disgyblion mewn chwaraeon? | | | | | |
| **Mwynhau**<br>Ble gallech chi ddarparu profiadau mwy cadarnhaol? | | | | | |

# Cynllun Gweithredu Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022

2022 School Sport Survey Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

**Mae'r pecyn cymorth byr hwn wedi cael ei ddatblygu i'ch ysbrydoli i ymgysylltu ymhellach â'ch disgyblion, ac mae'n amlinellu tri gweithgaredd hwyluso gwahanol y gallech chi eu defnyddio i helpu i wrando ar lais eich disgyblion a'i ddeall.**

## Taflen Teimladau

Gall greu taflen teimladau fod yn gyfle creadigol i ddeall sut mae pobl yn teimlo am rywbeth. Gallai fod yn seiliedig ar rywbeth mor eang â chwaraeon yn gyffredinol, neu weithgaredd neu ddigwyddiad penodol. I gychwyn taflen teimladau, gallech ddewis pwnc neu ddatblygu cwestiwn yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiad eich ysgol, neu drwy ofyn i'r disgyblion lunio eu cwestiwn eu hunain. Er enghraifft, gallent ysgrifennu, tynnu llun, defnyddio Emojis neu GIFs, torri delweddau neu destun o bapurau newydd, cylchgronau, neu'r rhyngrwyd, i gynrychioli eu teimladau. Dylid annog disgyblion i rannu drwy ba bynnag ddull mae nhw'n teimlo sy'n cynrychioli eu llais orau. Gellir cyflwyno'r allbynnau unigol gyda'i gilydd naill ai ar hap, neu fesul thema, i ysgogi trafodaeth ehangach fel grŵp.

## Wal Atebion / Rhwystrau

I ddechrau, bydd angen i'r disgyblion ysgrifennu neu dynnu llun o her neu rwystr sy'n ymwneud â phwnc penodol, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Yna, caiff y rhain eu casglu a'u grwpio gyda'i gilydd yn ôl thema drwy drafodaeth dosbarth, a'u gosod ar wal neu ar fwrdd. Dylai'r ffocws wedyn droi at atebion. Gellir rhoi nodiadau gludiog i ddisgyblion yn unigol i ysgrifennu ac uno atebion posibl i'r rhwystrau/heriau. Gellir gwneud hyn mewn grwpiau bach os yw'n teimlo'n fwy priodol. Bydd y cynnyrch terfynol yn dangos y rhwystrau a'r heriau y mae disgyblion yn eu hwynebu, gyda syniadau cadarnhaol ac adeiladol wedi'u llunio i ganfod lle i weithredu, yn ogystal ag unrhyw fylchau mewn atebion. Gallech hefyd adeiladu hyn drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

## Blaenoriaethu

Mae deall blaenoriaethau'n ddefnyddiol pan gyflwynir sawl opsiwn ar gyfer gweithredu. Yr opsiwn egnïol yw lledaenu'r dewisiadau o amgylch ystafell a gofyn i'r disgyblion gerdded at yr un maen nhw'n ei hoffi fwyaf. Yn yr un modd, gallech gael disgyblion i bleidleisio drwy wneud ymarfer gwahanol ar gyfer pob dewis, er enghraifft naid seren os yw'n well ganddynt bêl-rwyd neu naid twc ar gyfer rownderi. Bydd hyn yn cynnwys gweithgaredd yn newis y disgyblion a'u hysgogi i gynnal sgwrs. Ffordd arall o ddeall blaenoriaethau yw rhoi pum 'dot blaenoriaeth' i bob disgybl, gan ganiatáu iddynt ddewis beth sy'n bwysig iddynt drwy ddyrannu eu dotiau i'r gwahanol ddewisiadau. Gellir gwneud y dull hwn o amgylch bwrdd, ystafell, neu'n ddienw gan ddefnyddio blwch pleidleisio neu dechnoleg ddigidol.